**Eitem Agenda Rhif 2**

# PANEL APWYNTIADAU ARBENNIG
# (PENNAETH DYSGU A GWELLA
# A PHENNAETH PARTNERIAETH A CHYNHWYSIANT)

Cofnodion Panel Apwyntiadau Arbennig (Pennaeth Dysgu a Gwella a Phennaeth Partneriaeth a Chynhwysiant) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth 22 Mai 2007 am 5.00 p.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr N Hugh-Jones (Cadeirydd), J Chamberlain Jones, S A Davies, M M Jones a D Owens, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L Jones) a Chlerc y Sir ynghyd â C Johnson a M Phillips (GatenbySanderson).

## 1 MATERION BRYS

Dim

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Apwyntiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Mai.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod dau Gyngor cymdogol wedi mynegi diddordeb cychwynnol i gydweithio yn swydd Pennaeth Dysgu a Gwella. Os na fyddai'r trafodaethau yn dwyn ffrwyth erbyn 22 Mehefin, byddai'r swydd yn cael ei hail hysbysebu.

***PENDERFYNWYD*** *bod cofnodion cyfarfod y Panel Apwyntiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 11 Mai 2007 yn rhai cywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.*

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r camau a gymerir i lenwi swydd Pennaeth Dysgu a Gwella.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bod yr eitem busnes ganlynol yn cael ei drafod dan Adran 100(A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Y rheswm dros eu gwahardd yw bod yr eitem yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 3 APWYNTIO PENNAETH PARTNERIAETH A CHYNHWYSIANT – RHESTR FER DERFYNOL

Adroddodd ymgynghorwyr y Cyngor fod y 4 ymgeisydd wedi mynychu'r Ganolfan Asesu fel penderfynwyd gan y Panel: roedd yr ymgeisydd arall a wahoddwyd wedi tynnu ei enw nôl. Rhoddodd yr ymgynghorwyr orolwg o'r broses yn y Ganolfan Asesu a'r ymarferion a wnaed yno. Cwblhawyd eisoes broffil bersonoliaeth ar-lein gan yr ymgeiswyr ac ar y dydd rhoddodd yr ymgynghorwyr adborth iddynt. Yn ystod y dydd aseswyd yr ymgeiswyr ar ystod o ffactorau gan gynnwys archwilio'r cymhellion a oedd yn eu hysgogi i weithio, dadansoddi ei galluoedd meddyliol beirniadol, gweithio mewn grwpiau a rhyngweithio â Phanel Swyddog/ Athro/awes.

Ymatebodd yr ymgynghorwyr i gwestiynau'r aelodau ynghylch y broses a'r adborth ynglŷn â phob ymgeisydd. Bu'r aelodau yn pwyso a mesur bob ymgeisydd yn ofalus a chasglu bod dau yn teilyngu mynd i'r cyfweliad terfynol o flaen y Panel.

**PENDERFYNWYD** y dylai

*(a) ymgeiswyr 2 a 9 fynychu'r cyfweliad terfynol o flaen y Panel ar 23 Mai. Bydd y Panel yn ail gwrdd am10.45 a.m. a'r ymgeisydd cyntaf yn cael ei gyfweld am 11.00 a.m. a'r ail am 12 o'r gloch.*

*(b) ymgeiswyr gael testun gan y swyddogion i'w gyflwyno ar ddydd y cyfweliad terfynol. Gofynnir yr un cwestiwn i'r ymgeiswyr gan aelodau'r Panel, a'r Panel fydd yn penderfynu pa gwestiynau i ofyn.*

Terfynodd y cyfarfod am 6.30 p.m.